

Antur Pedr y Pengwin

Dihunais efo'r wawr i sŵn chwyrnu **Percy y pengwin** wrth fy ochr.

Roedd yr ynys yn **oer** a chllir, efo **eira** dros y tir.

Doedd hynny ddim yn unrhyw beth anarferol i ni ar **Ynys Bron-Sythu**, ond yn aml byddaf yn breuddwydio am y cyfle i fynd ar antur i wlad gynhesach!



Ymhen dim, cyrhaeddodd **cwch** o ymwelwyr.

Rydym yn gyfarwydd â'r drefn erbyn hyn. Fel bob tro arall, heidiodd criw o bobl gyffrous atom, ar dân i dynnu hunlun gyda ni!

Heb oedi, daeth teulu hapus draw ataf.

"Edrych Cynog, hwn yw fy ffeffryn. Gai lun efo ti pengwin bach?" holodd Elliw.

"Wrth gwrs!" meddais.




Cefais awr bleserus gyda'r teulu yn chwarae **'Top Trumps Adar'** a chlywais hanesion diddiwedd am wlad anhygoel o'r enw **Cymru**! Cynigodd Eiliw i mi ymuno efo nhw ar y **cwch** yn ôl i **Gymru** a dilynais y teulu heb feddwl dwywaith.

Ar ôl y siwrnai hir, glaniodd y **cwch** yn nhref Aberteifi.

Roedd yr **awyr** yn fwyn, a'r **haul** yn sgleinio'n braf uwchben. Sylwais ar y bwrlwm o gwmpas y castell a dyna pryd y deallais roedd **Eisteddfod y Cardis** yng Nghastell Aberteifi am y diwrnod.

Roedd pawb mewn gwisgoedd traddodiadol Cymreig gan fod heddiw yn **ddydd Gŵyl Dewi**.



"Dere glou Pedr, mae'r cawl yn oeri" dwedodd Cynog.

"Cawl?!" meddyliais.

Bob diwrnod ar **Ynys Bron-Sythu** byddai **Paul y pengwin pwdlyd** yn dweud fy mod i'n gwneud cawl o bethau!

Yna, clywyd llais cryf **Ceri Wyn Jones** dros siarad mân y gynulleidfa.

Roedd y cystadlu ar fin dechrau...

“Yn galw pob ymgeisydd ar gyfer y gystadleuaeth cerdd dant os gwelwch yn dda.”

“Cerdd dant?” Doedd dim modd i fi gystadlu yn y gystadleuaeth honno. Cerdd dim-dant fyddai'r gystadleuaeth i mi! Nid oes yr un dant gen i fel pob aderyn arall!



Yn lle, mentrais ar y gystadleuaeth unawd, gan forio canu **'Aderyn Pur'**.

Roedd y beirniad, **Rhys Meirion**, wedi syfrdanu ar y ffordd wnes fwrw'r nodyn top **G** a chipiais y wobwr **gyntaf!**

Aeth y cystadlu yn ei flaen ac, o fewn dim, cyrhaeddodd seremoni **y Cadeirio**.

Yn sydyn, clywais y geiriau pwysig yn llifo o geg **Ceri Wyn Jones**, **“Ar alwad y corn a wnaeth Cennin a Chennin yn unig sefyll ar ei draed neu ei thraed.”**

Neidiais i fyny cyn i'r cyrn orffen eu cân.

“Dwi wedi ennill!” bloeddais.

Gwibiais ar ras i'r llwyfan fel **mellten** o'r awyr! Eisteddais fel brenin balch ar ei orsedd grand!

Bron i mi fethu clywed y geiriau nesaf a ddaeth o geg **Ceri Wyn Jones**, “**Enillydd Cadair Eisteddfod y Cardis 2020 yw Pedr y Pengwin o Ynys Bron-Sythu!**”



Aeth y dathlu ymlaen nes roedd pawb wedi blino'n lân.

Ar ôl ffarwelio â phawb, gan gynnwys Cynog ac Eiliw, neidiais
ar y **cwch** yn ôl i **Ynys Bron-Sythu**.

O leiaf pan fydd chwyrnu **Percy** yn fy nghadw ar ddiun o
nawr ymlaen bydd cadair esmwyth gennyf i eistedd arni.

Er cofiwch, Duw a wŷr sut y gwnaf i ei chario adref i
Ynys Bron-Sythu!

Y DIWEDD

Awdur: Lleucu-Haf Thomas

Darlunydd: Sioned Medi Evans